

Cyngor Caerdydd



**Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol
ar gyfer Casglu Gordaliadau Budd-dal Tai**

Canllaw Cyflogwr



Canllaw Cyflogwr ar Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar gyfer Casglu Gordaliadau Budd-dal Tai

Cynnwys

1. Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol - cyflwyniad.....	4
1.1 Pam fod y Cyngor yn defnyddio AEU?	4
1.2 A oes yn rhaid i gyflogwyr roi AEU ar waith ar gyfer y Cyngor?	4
1.3 Beth os nad yw meddalwedd y gyflogres wedi'i diweddarau i alluogi AEU?	4
2. Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol – gwybodaeth gefndirol	5
2.1 Eich cyfrifoldebau	5
2.2 Gwybodaeth	5
3. Beth sy'n rhaid i gyflogwr ei wneud i weithredu AEU?	6
3.1 Cyfnod rhybudd gan y Cyngor	6
3.2 Y didyniadau	6
3.3 Y taliadau i'r Cyngor	6
4. Pa daliadau sy'n cael eu cyfrif fel enillion at ddibenion AEU?	7
5. Beth yw enillion net?	7
6. Sut mae cyfrifo'r swm i'w ddyynnu?	8
6.1 Wrth gyfrifo swm y didyniadau AEU, rhaid i chi:	8
6.2 Symiau i'w ddyynnu gan y cyflogwr	8
7. Beth os na fyddwch yn gwneud didyniadau neu'n gwneud didyniadau anghywir?	10
8. Mae gan eich cyflogai orchymnion llys eraill yn ei erbyn. Pa un sy'n cael blaenoriaeth?	10
9. Beth os nad yw fy nghyflogai yn ennill digon i'm galluogi i wneud y didyniad?	11
10. Mae eich cyflogai o'r farn bod y swm sy'n ddyledus yn anghywir.	11
11. Mae eich cyflogai o'r farn bod y didyniad yn ormod.	11
12. Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn gweithredu AEU?	11
13. Gwneud taliadau i Gyngor Caerdydd	12
13.1 Drwy BACS (Trosglwyddiad Credyd Awtomataidd).....	12
13.2 Talu drwy siec	12
13.3 Talu dros y ffôn.....	13
13.4 Rhestr daliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol	13
13.5 E-bostiwrch y rhestr daliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol atom	13
14. Enghreifftiau o Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol yn ymarferol.....	13
Enghraifft 1 – Cyflogai sy'n cael ei dalu'n wythnos nad oes ganddo orchymnion atafaelu blaenorol.	13
Enghraifft 2 – Cyflogai sy'n cael ei dalu'n wythnosol sydd â gorchymyn atafaelu presennol	2

o ran cynhaliaeth plant	13
Enghraifft 3 – Cyflogai sy'n cael ei dalu'n fisol sydd â gorchmynion atafaelu blaenorol.	13
15. Ble alla i gael rhagor o gyngor a gwybodaeth?	13
16. Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol – Rhestr Wirio Cyflogwyr	14
Rhestr Daliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol Cyngor Caerdydd	16

1. Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol - cyflwyniad

Mae Cyngor Caerdydd yn gyfrifol am adennill arian sy'n ddyledus iddo mewn perthynas â dyledion dan Ddeddf Gweinyddu Diogelwch Cymdeithasol 1992.

O fis Ebrill 2013, caiff Awdurdodau Lleol y pŵer i adennill gordaliadau Budd-dal Tai drwy ddiwydiadau o enillion, heb wneud cais am orchymyn llys. Gwneir hyn drwy Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol (neu AEU).

Rhoddwyd y pŵer hwn i Awdurdodau Lleol gan Reoliadau Diogelwch Cymdeithasol (Gordaliadau ac Adennill) 2013. Mae'r rheoliadau llawn ar gael ar y wefan hon - <http://www.legislation.gov.uk> ac mae'r darn sy'n berthnasol i'r canllaw hwn ar gael yn <http://caerdydd.gov.uk/AEU>

1.1 Pam fod y Cyngor yn defnyddio AEU?

Nid yw pawb yn mynd i gytundeb ad-dalu gwirfoddol. Mae AEU yn rhoi'r cyfle i ni adennill gordaliadau budd-dal gan ddyledwyr cyflogedig os ydynt yn gwrthod ad-dalu, yn methu â chytuno ar gynllun ad-dalu derbyniol neu'n methu â thalu trefniant ad-dalu gwirfoddol.

1.2 A oes yn rhaid i gyflogwyr roi AEU ar waith ar gyfer y Cyngor?

Oes. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnoch i wneud hynny oni bai eich bod yn fusnes newydd (sy'n dechrau rhwng 8 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014) neu'n microfusnes (sydd â llai na 10 cyflogai). Mewn achosion o'r fath nid oes angen i chi weithredu AEU, ond bydd angen i chi wneud hynny os cytunir ar hyn â'ch cyflogai.

Oni fyddwch yn cyflawni'ch dyletswyddau, gallech gael dirwy o hyd at £1000.

1.3 Beth os nad yw meddalwedd y gyflogres wedi'i diweddarau i alluogi AEU?

Gan fod hon yn weithdrefn newydd, mae'n bosibl nad yw eich system gyfrifiadurol wedi'i diweddarau i ddelio ag AEU. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n gweithio gyda Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol y Gyflogres, Cynrychiolwyr Cyflogwyr a darparwyr Meddalwedd y Gyflogres i ddatblygu datrysiad hirdymor addas, ond hyd nes y caiff eich meddalwedd ei newid bydd angen i chi ddilyn y cyfarwyddiadau isod ynghyd â'r canllawiau cyffredinol yn y ddogfen hon. Unwaith y caiff eich system ei diweddarau, mae'n bosibl na fydd angen y wybodaeth ar y dudalen gyntaf hon mwyach.

Hyd nes i'ch meddalwedd gael ei diweddarau, os byddwch yn defnyddio system gyflogres gyfrifiadurol ac y cewch gais i greu AEU, bydd angen i chi:

- a. Gyfrifo'r swm i'w dynnu oddi ar yr enillion. Ceir gwybodaeth am sut i wneud hyn yn yr adran 'Sut i gyfrifo'r swm i'w ddiwynnu?'
- b. Cadarnhau a oes unrhyw orchymynion eraill ar waith ar hyn o bryd – oherwydd gallai'r AEU gymryd blaenoriaeth dros y rhain. Darllenwch y rhestr lawn o archebion a sut y gallent effeithio ar AEU yn yr adran 'Cyflogai sydd â Gorchymynion Llys eraill yn ei erbyn'.
- c. Mewn achosion lle bo AEU yn cymryd blaenoriaeth dros orchymyn arall, ystyriwch p'un a ddylai'r gorchymynion eraill gael eu dirwyn i ben a ph'un a ddylid ailgyfrif y symiau i'w didynnu.
- d. Sicrhau, mewn achosion lle na ellir defnyddio gorchymynion eraill, fod y rhain yn cael eu dileu o'r system gyflogres ac yn cael eu hailweithredu pan fo AEU yn dirwyn i ben.

Os oes gennych gwestiynau nad ydynt wedi'u hateb ar ôl darllen y canllawiau, ffoniwch y Tîm Gorfodi Dyledion ar 02920 537500.

2. Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol – gwybodaeth gefndirol

Mae gan AEU ei reoliadau ei hun sy'n dilyn rhai o weithdrefnau'r Gorchymyn Didynnu o Enillion (GDE) a rhai o weithdrefnau'r Gorchymyn Atafaelu Enillion (GAE). Nid yw AEU yn cymryd lle'r gorchymynion eraill hyn a gallech gael ceisiadau i weithredu didyniadau ar gyfer GDE neu GAE o hyd.

2.1 Eich cyfrifoldebau

Fel cyflogwr, mae gennych rwymedigaeth **gyfreithiol** i:

- weithredu AEU pan ofynnwn i chi wneud didyniadau o enillion net cyflogai.
- talu'r symiau a ddidynwyd gennym ni erbyn 19^{eg} diwrnod y mis ar ôl y mis y gwnaed y didyniad ynddo.
- cadw cofnod o bob didyniad a wneir, a'r cyflogai y gwnaed didyniad o'i enillion.
- parhau i weithredu AEU nes i Gyngor Caerdydd awgrymu i chi beidio â gwneud hyn, neu nes i'ch cyflogai adael eich cyflogaeth.
- sicrhau eich bod yn cymryd y swm cywir o enillion eich cyflogai bob wythnos neu fis, a'i dalu i ni.

Oni fyddwch yn cydymffurfio â'ch dyletswyddau, gallech gael dirwy o hyd at £1000.

2.2 Gwybodaeth

a) gan Gyngor Caerdydd - byddwn yn anfon hysbysiad i chi yn gofyn i chi wneud cais am AEU mewn perthynas ag enillion eich cyflogai. Bydd hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i greu AEU.

b) i Gyngor Caerdydd – mae gennych ddyletswydd i roi gwybod i ni am y canlynol:

- Os gofynnwn i chi weithredu AEU ar gyfer rhywun nad yw'n gweithio i chi.
- Os bydd cyflogai y mae gennych AEU ar ei gyfer yn gadael eich cyflogaeth.
- Os ydych yn fusnes newydd (sy'n dechrau rhwng 8 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014) neu'n ficrofusnes (sydd â llai na 10 cyflogai), fel y diffinnir yn y Rheoliadau. Os ydych yn fusnes newydd neu'n ficrofusnes, nid oes yn rhaid i chi weithredu AEU ond mae'n bosibl y bydd angen i chi wneud hynny os cytunir ar hyn â'ch cyflogai.

Rhaid i chi gwblhau a dychwelyd y ffurflen i'r cyfeiriad a ddangosir ar y llythyr cais AEU o fewn 10 diwrnod o ddyddiad y llythyr hwnnw os yw'r uchod yn berthnasol i chi. Dylech hefyd roi gwybod i ni os yw eich busnes yn rhoi'r gorau i fasnachu.

c) i'ch cyflogai – mae dyletswydd arnoch i roi gwybod i'ch cyflogai yn ysgrifenedig am:

- Swm y didyniad a wnaed, gan gynnwys unrhyw swm a gymerwyd ar gyfer costau gweinyddol. (gweler adran 6.2 (f) ar gostau gweinyddol). Os dangosir y wybodaeth hon ar y slip talu, bydd hyn yn ddigonol.
- Sut y cyfrifwyd y didyniad hwnnw.

Rhaid i chi wneud hyn (a'i gofnodi) erbyn y diwrnod talu ar ôl yr un y gwnaed didyniad AEU arno.

3. Beth sy'n rhaid i gyflogwr ei wneud i weithredu AEU?

3.1 Cyfnod rhybudd gan y Cyngor

Bydd y Cyngor yn anfon llythyr i chi (a elwir yn hysbysiad yn swyddogol) sy'n dweud wrthy'ch am ddefnyddio AEU ar gyfer eich cyflogai, gan roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i'w weithredu. Mae hyn yn cynnwys:

- Enw a chyfeiriad a rhif yswiriant gwladol y person y byddwch yn gwneud didyniad o'i gyflog.
- Rhif staff, rhif cyflogres neu rif adnabod tebyg, os oes gennym un o'r rhain.
- Y canrannau a ddefnyddir i wneud didyniadau.
- Y gyfran o'r cyflog a ddiogelir (gweler adran 6.2 (a))
- Pryd i anfon taliad atom.
- Y cyfeiriad i anfon y taliadau ato os byddwch yn talu drwy siec.
- Manylion y cyfrif i drosglwyddo'r taliadau iddo, os ydych yn ein talu drwy drosglwyddiad credyd uniongyrchol.

3.2 Y didyniadau

Unwaith i chi gael yr hysbysiad, bydd angen i chi sicrhau bod eich cyflogai'n ennill digon i wneud didyniad. Os yw'n ennill digon, gallwch gyfrifo faint i'w gymryd oddi ar ei enillion gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddir gan y Cyngor, a gwneud y didyniadau.

3.3 Y taliadau i'r Cyngor

Unwaith i chi gymryd yr arian, rhaid i chi ei dalu i'r Cyngor o fewn cyfnod penodol o amser. Gofynnwn i chi wneud taliadau yn unol â'ch cyflogres, felly os yw eich cyflogai'n cael ei dalu'n wythnosol neu'n fisol, dylech ein talu ar yr un pryd.

Fodd bynnag, os yw eich cyflogai'n cael ei dalu'n wythnosol rhaid i chi gyfrifo a didynnu'r taliad bob wythnos, ond gallwch ein talu bob 4 wythnos os ydych yn dymuno.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn cymryd y swm cywir o enillion eich cyflogai bob wythnos neu fis, a'i dalu i ni.

4. Pa daliadau sy'n cael eu cyfrif fel enillion at ddibenion AEU?

Beth sy'n cyfrif fel 'enillion' mewn AEU	Beth sydd <u>ddim</u> yn cyfrif fel 'enillion' mewn AEU
Tâl	Tâl Mamolaeth Statudol
Cyflog	Tâl Mabwysiadu Statudol
Ffioedd	Tâl Tadolaeth Statudol Arferol
Bonysau	Tâl Tadolaeth Statudol Ychwanegol
Comisiwn	Unrhyw bensiwn, budd-dal, lwfans neu gredyd a delir gan y Ganolfan Byd Gwaith, awdurdod
Tâl goramser	Pensiwn gofynnol gwarantedig dan Ddeddf Cynllun Pensiynau 1993
Y rhan fwyaf o daliadau eraill ar ben y tâl	Symiau a delir gan adran gyhoeddus o Lywodraeth Gogledd Iwerddon neu unrhyw le y tu allan i'r Deyrnas Unedig
Pensiynau Galwedigaethol, os cânt eu talu gyda thâl neu gyflog	Symiau a delir i ad-dalu costau yr aed iddynt fel rhan o gyflogaeth
Taliadau cyfnodol fel iawndal am golled, diddymiad neu ildiad, neu leihad mewn perthynas ag enillion unrhyw swyddfa neu gyflogaeth	Tâl neu lwfansau fel aelod o luoedd arfog Ei Mawrhydi, ac eithrio tâl neu lwfansau sy'n daladwy gennych chi fel aelod arbennig o'r lloedd wrth gefn
Tâl Salwch Statudol	Cyfundaliad taliadau dileu swydd a thâl yn lle rhybudd

Os mai'r unig enillion y mae eich cyflogai yn eu cael yw'r rhai yn y golofn dde, ni allwch gyfrifo didyniad AEU. Yn yr un modd, os yw'r rhain yn cael eu talu fel rhan o'r enillion, ni ddylid eu cynnwys fel rhan o enillion net y cyflogai.

5. Beth yw enillion net?

Rhaid i chi gymryd y swm ar gyfer yr AEU yn uniongyrchol o enillion **net** eich cyflogai. Enillion net yw'r enillion sy'n weddill ar ôl didynnu:

- Y Dreth Gyngor
- Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1
- Cyfraniadau at bensiwn gweithle (gan gynnwys Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, Cyfraniadau Ychwanegol Annibynnol a Chyfraniadau Pensiwn Rhanddeiliaid)

6. Sut mae cyfrifo'r swm i'w ddidynnu?

6.1 Wrth gyfrifo swm y didyniadau AEU, rhaid i chi:

- Sicrhau bod gan eich cyflogai ddigon o enillion net yn y cyfnod tâl hwnnw i'ch galluogi i gyfrifo didyniad (gweler tablau A a B isod).
- Cadarnhau bod y gyfradd ganrannol gywir wedi'i defnyddio yn erbyn yr enillion net hynny.
- Cadarnhau nad yw cyfanswm yr holl ddidyniadau yn gadael y cyflogai â llai na'r gyfran enillion a ddiogelir, sef 60% o'i enillion net yn ystod y cyfnod cyfrifo y mae'r didyniad yn berthnasol iddo.
- Cyfrifo enillion net y cyflogai (fel yr esbonnir ym mhwyntiau 3 a 4).
- Defnyddio tabl A neu B (isod) i ddod o hyd i'r gyfradd ganrannol gywir ar gyfer y didyniad i enillion net y cyflogai.
- Defnyddio'r ffigur canrannol yn erbyn yr enillion net i gyfrifo'r swm i'w ddidynnu.

6.2 Symiau i'w didynnu gan y cyflogwr

TABL A: Lle bo enillion yn cael eu talu'n wythnosol

Swm enillion net	Didyniad (% o enillion net)
Llai na £100	Dim
Mwy na £100 ond dim mwy na £160	3%
Mwy na £160 ond dim mwy na £220	5%
Mwy na £220 ond dim mwy na £270	7%
Mwy na £270 ond dim mwy na £375	11%
Mwy na £375 ond dim mwy na £520	15%
Mwy na £520	20%

TABL B: Lle bo enillion yn cael eu talu'n fisol

Swm enillion net	Didyniad (% o enillion net)
Llai na £430	Dim
Mwy na £430 ond dim mwy na £690	3%
Mwy na £690 ond dim mwy na £950	5%
Mwy na £950 ond dim mwy na £1,160	7%
Mwy na £1,160 ond dim mwy na £1,615	11%
Mwy na £1,615 ond dim mwy na £2,240	15%
Mwy na £2,240	20%

Noder: ni ddylai cyfanswm yr holl ddidyniadau (AEU ynghyd ag unrhyw ddidyniadau eraill sydd ar waith) adael y cyflogai â llai na'r **gyfran enillion a ddiogelir**, sef **60% o'i enillion net** yn ystod y cyfnod cyfrifo y mae'r didyniad yn berthnasol iddo.

b) Cyflogeion sy'n cael eu talu bob 2 wythnos

Os yw cyflogai'n cael ei dalu bob 2 wythnos, rhennir cyfanswm y tâl net â 2, a defnyddir tabl A i gadarnhau'r ganran.

c) Cyflogeion sy'n cael eu talu bob 4 wythnos

Os yw cyflogai'n cael ei dalu bob 4 wythnos, rhennir cyfanswm y tâl net â 4, a defnyddir tabl A i gadarnhau'r ganran.

DS: Peidiwch â gadael cyflogai â llai na 60% o gyfanswm ei enillion net.

d) Tâl Gwyliau

Os yw cyflogai'n cael tâl sy'n cynnwys tâl gwyliau ymlaen llaw, cyfrifir cyfartaledd y tâl net a defnyddir y gyfradd ganrannol ar y ffigur cyfartalog. Er enghraifft:

Cafodd y cyflogai un wythnos o dâl a 2 wythnos o dâl gwyliau.
Cyfanswm taliad net ar gyfer 3 wythnos = £850.

- $£850 \div 3 = £283.33$
- $£283.33 \times 11\% = £31.17$
- Cyfanswm didyniad o'r tâl net ar gyfer 3 wythnos ar £850 = £93.51 ($£31.17 \times 3$).

e) Talfyrru

Defnyddir union swm y tâl net yn erbyn tabl A a B. Os yw'r ganran a gyfrifir yn arwain at ffracsiwn o geiniog, caiff ei dalfyrru i'r geiniog gyfan agosaf, gyda hanner ceiniog yn cael ei dalfyrru i'r geiniog gyfan isaf, fel a ganlyn:

- Tâl net o £235.63 yr wythnos
- $£235.63 \times 7\% = £16.4941$
- Didyniad wythnosol = £16.49
- Tâl net o £1547.99 y mis
- $£1547.99 \times 11\% = £170.278$
- Didyniad misol = £170.28

f) Costau gweinyddol – beth y gallwch ei godi ar eich cyflogai.

Ar gyfer pob cyfnod talu pan fyddwch yn cyfrifo'r didyniad DEA, gallwch hefyd gymryd hyd at £1 o enillion eich cyflogai at gostau gweinyddol. Gallwch fynd â hwn hyd yn oed os yw'n lleihau incwm y cyflogai'n is na'r gyfradd enillion a ddiogelir.

*** Pan benderfynwch ddidynnu cost weinyddol o £1.00, gallai'r didyniad hwn ddod â'r cyflogai'n is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Dylai cyflogwyr fynd i <https://www.gov.uk/national-minimum-wage/employers-and-the-minimum-wage>, neu gysylltu â llinell gymorth ACAS am gyngor.**

Mae'n drosedd i gyflogwyr beidio â thalu Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu Gyflog Byw Cenedlaethol i gyflogeion.

Nid yw'r gost weinyddol o £1.00 ond yn berthnasol pan wneir didyniad DEA, ac ni ellir ei didynnu am unrhyw gyfnod tâl pan na wneir didyniad DEA.

7. Beth os na fyddwch yn gwneud didyniadau neu'n gwneud didyniadau anghywir?

7.1 Os na wnewch ddidyniad o enillion net y cyflogai pan ddylech fod wedi gwneud hynny, neu'n cymryd y swm anghywir, dylech unioni'r sefyllfa ar y diwrnod talu neu'r diwrnodau talu nesaf. Pan fo'r swm yn anghywir gan fod y didyniad yn llai na'r swm a nodwyd dan y rheoliadau, dylech yn gyntaf;

- ddidynnu'r swm sy'n ofynnol ar gyfer y cyfnod talu cyfredol.
- cynnwys y gwahaniaeth rhwng y swm anghywir a'r swm cywir ar gyfer y cyfnod blaenorol.

Lle bo'r swm yn anghywir gan fod y didyniad yn fwy na'r swm a nodwyd dan y rheoliadau, dylech yn gyntaf;

- ddidynnu'r swm sy'n ofynnol ar gyfer y cyfnod talu cyfredol.
- lleihau swm y didyniad yn unol â'r swm gormodol a gymerwyd yn flaenorol.

7.2 Mae'n bwysig nodi, os caiff didyniad ei leihau yn ystod wythnos neu fis gan y byddai'r AEU ac unrhyw archebion eraill sydd ar waith yn rhagori ar y terfyn enillion a ddiogelir o 60% (gweler enghraifft 3 - tudalen 12), NID ystyrir hyn yn ddiffyg fel y disgrifir uchod. Bydd diffyg ond yn digwydd pan fo'r swm anghywir wedi'i ddidynnu ar gam, neu pan fo o leiaf un didyniad wedi'i gollu.

Noder hefyd na ddylai'r cyfanswm i'w ddidynnu, gan gynnwys addasiadau ar gyfer didyniad anghywir ac unrhyw ddidyniadau eraill sydd ar waith, adael y cyflogai â llai na'r terfyn enillion a ddiogelir, sef 60%, ar gyfer pob cyfnod tâl.

8. Mae gan eich cyflogai orchymynion llys eraill yn ei erbyn. Pa un sy'n cael blaenoriaeth?

8.1 Gall y llysoedd wneud gorchymynion sy'n golygu bod yn rhaid i chi gymryd arian yn uniongyrchol o enillion eich cyflogai mewn ffordd debyg i sut rydym yn gofyn i chi wneud didyniadau ar gyfer AEU. Er enghraifft, gallai fod gan eich cyflogai Orchymyn Atafaelu Enillion (Cymru a Lloegr) neu Orchymyn Didyniad o Enillion (ar gyfer Cynhaliaeth Plant). Gallai'r AEU gael ei weithredu heb orchymyn llys, ond os oes gan eich cyflogai unrhyw orchymynion didynnu eraill yn ei erbyn, ceir rheolau sy'n dangos i chi pa arian y dylid ei gymryd gyntaf.

Os oes gan eich cyflogai un neu fwy o'r canlynol, bydd yn cymryd blaenoriaeth dros AEU:

8.2 Cymru a Lloegr

- Gorchymyn Didyniad o Enillion (GDE) gan y Grŵp Cynhaliaeth Plant (GCP)

- Gorchymyn Atafaelu Enillion (GAE) ar gyfer Cynhaliaeth neu Ddirwyon
- Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor (GAEDG)

8.3 Yr Alban

- Gorchymyn Didyniad o Enillion (GDE) gan y GCP
- Arestiad Enillion

8.4 Benthyciadau Myfyrwyr

Mae ad-daliad benthyciad myfyrwyr hefyd yn cymryd blaenoriaeth dros AEU. Mae hyn yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Unwaith i'r gorchmynion â blaenoriaeth gael eu hystyried yn eich cyfrifiad, bydd AEU yn cymryd blaenoriaeth mewn perthynas â gorchmynion neu hysbysiadau eraill **yn nhrefn eu dyddiad** (yn yr Alban bydd hyn ar y dyddiad y cawsant eu derbyn). Bydd y swm y gallwch ei ddidynnu yn amodol ar yr enillion net sydd ar gael uwchlaw'r terfyn enillion a ddiogelir o 60% o enillion net.

9. Beth os nad yw fy nghyflogai yn ennill digon i'm galluogi i wneud y didyniad?

Os yw'r enillion wythnosol neu fisol islaw'r trothwy (gweler tablau A a B ar dudalen 7), ni allwch gyfrifo didyniad AEU.

Rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor pam na wnaed didyniad gan ddefnyddio atodlen taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol (gweler adran 13.4 am wybodaeth am hyn).

Rhaid i chi barhau i gyfrifo p'un a ellir gwneud didyniad AEU ym mhob cyfnod tâl nes i ni ddweud wrthyfch am roi'r gorau i hyn neu fod eich cyflogai'n gadael eich cyflogaeth.

10. Mae eich cyflogai o'r farn bod y swm sy'n ddyledus yn anghywir.

Os yw eich cyflogai o'r farn bod y swm sy'n ddyledus yn anghywir, dylech ddweud wrtho i roi gwybod i'r Tîm Gorfodi Dyledion ar unwaith drwy ffonio'r rhif ar frig y llythyr a gafodd ynghylch Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol. Y rhif hwn yw 02920 537500.

11. Mae eich cyflogai o'r farn bod y didyniad yn ormod.

Os yw o'r farn bod y swm a gyfrifwyd gennych yn ormod, dylech gadarnhau bod y swm sy'n cael ei ddidynnu yn gywir yn unol â thabl A neu B (tudalen 7) ar sail ei enillion a gorchmynion eraill sydd ar waith. Os yw'r swm yn gywir, dylech esbonio eich bod wedi gwneud y didyniad yn ôl y cyfarwyddiadau. Os nad yw'r cyflogai'n meddwl y gall ymdopi â'r swm, dylech ddweud wrtho i gysylltu â ni.

12. Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn gweithredu AEU?

Unwaith y byddwch wedi dechrau gweithredu AEU, rhaid i chi barhau i wneud taliadau i ni nes i ddweud wrthyfch am roi'r gorau iddi neu fod y swm cyfan wedi'i ddidynnu o'ch enillion. Byddwn yn cysylltu â chi pan ddaw'r didyniadau i ben neu os bydd y swm a ddidynnir yn newid.

Os bydd newid mewn amgylchiadau sy'n golygu na allwch weithredu'r AEU mwyach, rhaid i chi roi gwybod i ni yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod o'r newid hwnnw. Fodd bynnag, yn y lle cyntaf ffoniwch ni i roi gwybod i ni oherwydd efallai y gallwn gyflymu'r broses weinyddu.

Os oes angen i chi roi gwybod i ni am newid fel hyn, ffoniwch y Tîm Gorfodi Dyledion ar 02920 537500 neu e-bostiwch ni yn debt enforcement@caerdydd.gov.uk

13. Gwneud taliadau i Gyngor Caerdydd

Unwaith y cewch hysbysiad i weithredu AEU, rhaid i chi:

- wneud taliadau rheolaidd i ni, nes i ni ddweud wrthy ch am roi'r gorau i hynny neu fod y swm cyfan wedi'i adennill o'ch enillion fel cyflogai.
- talw'r swm rydych wedi'i gymryd o gyflog eich cyflogai i Gyngor Caerdydd cyn gynted â phosibl, heb fod yn hwyrach na 19^{eg} diwrnod y mis ar ôl y mis y cymerwyd y taliad ynddo.
Er enghraifft, os cymerwch yr arian ar 30 Medi, rhaid i chi ei anfon atom cyn 19 Hydref. Os cymerwch yr arian ar 1 Hydref, rhaid i chi ei anfon atom cyn 19 Tachwedd.

13.1 Drwy BACS (Trosglwyddiad Credyd Awtomataidd)

Dyma'r dull talu a ffeirir gennym, gan ei fod yn ddiogel ac yn gyflym. Wrth drefnu taliad drwy'r dull hwn, bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch:

Cod didoli banc Cyngor Caerdydd	08-90-03
Rhif cyfrif banc Cyngor Caerdydd	61007657
Enw Cyfrif	Cyngor Caerdydd
Rhif cyfeirnod ALI cyflogai	Dangosir hwn ar yr hysbysiad AEU a anfonir i chi.
Os yw'r taliad ar gyfer un cyflogai, nodwch rif cyfeirnod ALI y cyflogai. Os yw'r taliad yn ymwneud â chyflogaion amrywiol, nodwch 'AEU' ym mhwynt 10.	

Os ydych yn talu drwy BACS bydd angen i chi anfon atodlen taliad AEU atom er mwyn i ni wybod at bwy y mae'r taliad yn cyfeirio. Gweler pwynt 13.4 am gyfarwyddiadau ar hyn.

13.2 Talu drwy siec

Os oes angen i chi dalu drwy siec, dylech ei gwneud yn daladwy i '**Cyngor Caerdydd**' ac ysgrifennu rhif cyfeirnod ALI y cyflogai ar gefn y siec.

Anfonwch y siec i:

Cyngor Caerdydd
Tîm Gorfodi Dyledion
Blwch SP 6000
Caerdydd
CF11 0WZ

Os ydych yn talu drwy siec, bydd angen i chi atodi atodlen taliad AEU i'r siec er mwyn i ni wybod at bwy y mae'r taliad yn cyfeirio. Gweler pwynt 13.4 am gyfarwyddiadau ar hyn.

13.3 Talu dros y ffôn

Os yw eich banc yn cynnig cyfleuster talu biliau a'ch bod am wneud taliad dros y ffôn/bancio dros y rhyngwrwyd/trosglwyddiad credyd awtomataidd, dylech ddefnyddio manylion y cyfrif banc canlynol i drosglwyddo cyllid:

Cod Didoli: 08-90-03

Rhif y Cyfrif: 61007657

Cyfeirnod: Dyma fydd **Rhif Cyfrif** y cyflogai, fel y dangosir ar yr hysbysiad AEU.

13.4 Rhestr daliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol

Ar gyfer taliadau BACS (Trosglwyddiad Credyd Awtomataidd) neu siec, rhaid i chi anfon rhestr daliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol atom. Mae taflen wag i chi ei chopio cymaint ag y mynnoch wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon (gweler tudalen 15) a gallwch hefyd ddod o hyd iddi ar ein gwefan yn www.caerdydd.gov.uk/AEU

Rhaid i'r rhestr daliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol gynnwys y manylion canlynol ar gyfer pob person y gofynnwyd i chi wneud didyniadau o'i enillion:

- enwau llawn (enwau cyntaf a chyfenwau)
- Rhif Cyfeirnod ALI fel y dangosir ar yr hysbysiad AEU a anfonwyd atoch
- swm y didyniad (mewn punnoedd) a ddidynnwyd neu
- y rheswm pam na ellir gwneud didyniad ar yr adeg briodol.

Rhaid i swm y trosglwyddiad credyd awtomataidd neu'r siec fod yr un peth â chyfanswm y didyniadau a ddangosir ar y rhestr daliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol. Peidiwch ag anfon arian parod drwy'r post.

13.5 E-bostiwrch y rhestr daliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol atom

Os ydych yn dymuno, gallwch e-bostio copi electronig o'r rhestr atom yn debtenforcement@caerdydd.gov.uk gyda'r taliad i ddilyn.

Cofiwch gynnwys 'hysbysiad AEU' yn nheitl eich e-bost.

14. Enghreifftiau o Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol yn ymarferol

Enghraifft 1 – Cyflogai sy'n cael ei dalu'n wythnosol nad oes ganddo orchmynion atafaelu blaenorol.

Bydd person ag enillion net o £385 yr wythnos yn cael didyniad o £57.75 yr wythnos (yn unol â'r tabl cyfraddau didynnu ar 15%)

Enghraifft 2 – Cyflogai sy'n cael ei dalu'n wythnosol sydd â gorchymyn atafaelu presennol o ran cynhaliaeth plant

Bydd person ag enillion net o £250 yr wythnos sydd â gorchymyn atafaelu presennol o £60 yr wythnos o ran cynhaliaeth plant yn cael didyniad o £17.50 (yn unol â'r tabl cyfraddau didynnu ar 7%)

Enghraifft 3 – Cyflogai sy'n cael ei dalu'n fisol sydd â gorchmynion atafaelu blaenorol.

Dylai person ag enillion net o £1620 y mis gael didyniad AEU o £243 (yn unol â'r tabl cyfraddau didynnu ar 15%). Fodd bynnag, bydd y didyniad hwn, ochr yn ochr â'r didyniadau presennol o £486, yn mynd y tu hwnt i'r terfyn enillion a ddiogelir o 60%. Y didyniad mwyaf y gallwn ei wneud yn yr achos hwn yw £162.

Cyfrifiad

Enillion x 40% = £648 (uchafswm ar gyfer didyniadau) Gorchymyn atafaelu presennol â blaenoriaeth mewn grym = £486

Didyniad AEU = £243

£648 – £486 = £162 (yr uchafswm ar gyfer y didyniad AEU)

Felly, er bod y tabl cyfraddau didynnu'n nodi y dylid gwneud didyniad o £243, golyga'r terfyn enillion a ddiogelir mai'r swm mwyaf y gellir ei gymryd yw £162.

15. Ble alla i gael rhagor o gyngor a gwybodaeth?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol, neu gymorth i weithredu gorchymyn o'r fath, ffoniwch Tîm Gorfodi Dyledion Cyngor Caerdydd ar 02920 537500.

16. Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol – Rhestr Wirio Cyflogwyr

1	A yw'r person a enwir yn yr hysbysiad yn gweithio i chi?	Ydy - ewch i 2 Nac ydy – dywedwch wrth y Cyngor o fewn 10 diwrnod
2	Ydych chi'n fusnes newydd neu'n microfusnes? (gweler pwynt 1.2 am ganllawiau)	Ydyn – cysylltwch â'r Cyngor ar 02920 537500 Nac ydyn - ewch i 3
3	Oes unrhyw orchmynion didynnu eisoes ar waith a fydd yn cael blaenoriaeth dros yr AEU gan ei atal rhag cael ei weithredu?	Oes – dywedwch wrth y Cyngor o fewn 10 diwrnod Nac oes - ewch i 4
4	Cyfrifwch enillion net eich cyflogai at ddibenion AEU (gweler pwynt 5 am ganllawiau)	
5	A yw'n ennill digoni wneud didyniadau? (gweler pwynt 6 am ganllawiau)	Ydy - ewch i 6 Nac ydy – dywedwch wrth y Cyngor o fewn 10 diwrnod
6	Penderfynwch faint o'r enillion net y dylid eu didynnu (gweler pwynt 6 am ganllawiau)	
7	Os byddwch yn didynnu'r swm hwnnw, a fydd ganddo lai na 60% o'i dâl yn weddill – y swm a ddiogelir? (gweler 6.2a am ganllawiau)	Bydd – Os yn bosibl, addaswch eich didyniadau er mwyn sicrhau bod ganddo 60% o'i enillion net NEU, o fewn 10 diwrnod, dywedwch wrth y Cyngor na ellir gwneud didyniadau. Na fydd - ewch i 8
8	Gwnewch yn siŵr nad yw'r y cyfanswm a ddidynnir drwy'r gorchymyn hwn a didyniadau blaenorol yn fwy na'r cyfanswm a nodir yn yr hysbysiad hwn.	
9	Gwnewch y trefniadau angenrheidiol gydag adran y gyflogres ar gyfer y didyniad.	
10	Rhowch wybod i'ch cyflogai am y swm i'w ddidynnu erbyn y diwrnod talu y gwneir y didyniad arno.	
11	Talwch y swm a ddidynnir o enillion eich cyflogai i'r Cyngor erbyn 19 ⁰⁹ diwrnod y mis ar ôl y mis y gwnaed y didyniad ynddo. Os ydych yn talu drwy BACS neu siec,	

	anfonwch rhestr daliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol at y Cyngor gyda manylion y taliad. (gweler pwynt 13 am ganllawiau).	
--	---	--

Rhestr Daliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol Cyngor Caerdydd

At: Cyngor Caerdydd	O'r Cyflogwr
Tim Gorfodi Dyledion Blwch SP 6000 Caerdydd CF11 OWZ	

Gwybodaeth am gyflogaion y gwnaed didyniadau AEU o'u henillion

Eitem	Swm a ddiynnir	Enw'r cyflogai	Rhif/Cyfeirnod staff	Rhif Yswiriant Gwladol	Cyfeirnod yr ALI
1	£				
2	£				
3	£				
4	£				
5	£				
Os na ellir didynnu arian, nodwch pam.					

Gwybodaeth am y cyflogwr a'r taliad

Cyfanswm y taliadau a gwmpesir gan y daflen hon	£	Rhif siec	
Enw'r person a gwblhaodd y daflen hon		Dull talu (dileer fel y bo'n briodol)	BACS / Siec
Rhif ffôn cyswllt:		Dyddiad cwblhau'r daflen	

Rhaid cwblhau'r atodlen hon pan fyddwch yn anfon taliad ar gyfer un neu sawl cyflogai, talu gyda siec neu BACS (Trosglwyddiad Credyd Awtomataidd). Fel arall, cewch anfon copi electronig atom mewn e-bost at debt enforcement@caerdydd.gov.uk gyda'r taliad i ddilyn. Cofiwch gynnwys 'hysbysiad AEU' yn nheitl eich e-bost.